- SMART goal setting/Care planning
- Education about improving health and wellbeing e.g. sleep hygiene, diet and coping skills
- Bespoke individual reducing programmes
- Counselling, based on the Cycle of change and Motivational work
- Online CBT (Serenity programme) Auricular Acupuncture
- Auricular Acupuncture
- Bibliotherapy/Book prescriptions
- Advice/Sign posting to other services
- Telephone Support
- Follow-up clinics in GP surgeries or CMHT bases



- Pill cutters and plan packs
- T.E.N.S. Units
- Preventative work

In conclusion, we have learned over the years that a slow approach will yield the best results and clients are more likely to succeed if they go at their own pace. Counselling and support is crucial to help people to make important life changes.

**Referrals can be made by:**

- SPOA (Single Point of Access, Primary Mental Health)
- GP's, Community Pharmacists, other primary care professionals
- Consultant Psychiatrists/ CMHT'S
- Open referral policy.

We will prioritise pregnant women and older persons but we do aim to assess all referrals within 28 days.

The service covers Betsi Cadwaladr University Health Board with the exception of North Powys.

**The Team:**

[Redacted]

[Redacted]

[Redacted]

[Redacted]

[Redacted]

# Eitem 2.2

## P-05-787 Achub Cenedlaeth y Dyfodol yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Ken Ebihara, ar ôl casglu 54 o lofnodion ar-lein.

### Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau lleol unigol yn dyrannu o leiaf 50 y cant o'u dyraniadau amcanol i waith ieuenctid drwy'r 'Grant Cynnal Refeniw'.

### Gwybodaeth ychwanegol

Mae'r mater o p'un ai y dylid neilltuo symiau penodol o'r 'Grant Cynnal Refeniw' ar gyfer gwaith ieuenctid ai peidio eisoes wedi'i nodi yn un o'r adroddiadau a gyhoeddwyd gan y 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n ffaith bod yna fwlch rhwng y cyfraniadau ariannol gwirioneddol i waith ieuenctid gan awdurdodau lleol unigol drwy'r Grant Cynnal Refeniw a'r dyraniad amcanol ar gyfer y gwaith hwn.

Mae hyn yn hanfodol i sicrhau a chynnal ansawdd y gwaith a wneir gyda phobl ifanc yng Nghymru er mwyn iddynt gael cyfleoedd gwerthfawr i wella eu hunain mewn amgylchedd cefnogol. Ni ddylai'r ffactor hanfodol hwn ddibynnu ar benderfyniadau awdurdodau lleol yn unig, sy'n amrywio o un i'r llall oherwydd eu blaenoriaethau o ran gwariant. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymyrryd yn fwy rhagweithiol i sicrhau bod y lefel isaf yn cael ei chynnal o ran ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ledled Cymru.

Mae neilltuo rhannol yn atal awdurdodau lleol unigol rhag gostwng ymhellach lefel yr adnoddau ariannol sy'n cael eu gwario ar waith ieuenctid, gan eu galluogi i gynnal rhywfaint o annibyniaeth wrth flaenoriaethu eu gwariant yn unol â'u blaenoriaethau unigol. Efallai mai'r syniad penodol hwn yw'r ateb mwyaf realistig i'r mater.

### Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru



# Achub Cenhedlaeth y Dyfodol yng Nghymru

Y Pwyllgor Deisebau | 5 Rhagfyr 2017  
Petitions Committee | 5 December 2017

## Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-787

Teitl y ddeiseb: **Achub Cenhedlaeth y Dyfodol yng Nghymru**

Testun y ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod awdurdodau lleol unigol yn dyrannu o leiaf 50 y cant o'u dyraniadau amcanol i waith ieuenctid drwy'r 'Grant Cynnal Refeniw'.

Mae'r mater o p'un ai y dylid neilltuo symiau penodol o'r 'Grant Cynnal Refeniw' ar gyfer gwaith ieuenctid ai peidio eisoes wedi'i nodi yn un o'r adroddiadau a gyhoeddwyd gan y 'Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg' yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n ffaith bod yna fwlch rhwng y cyfraniadau ariannol gwirioneddol i waith ieuenctid gan awdurdodau lleol unigol drwy'r Grant Cynnal Refeniw a'r dyraniad amcanol ar gyfer y gwaith hwn. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau a chynnal ansawdd y gwaith a wneir gyda phobl ifanc yng Nghymru er mwyn iddynt gael cyfleoedd gwerthfawr i wella eu hunain mewn amgylchedd cefnogol. Ni ddylai'r ffactor hanfodol hwn ddibynnu ar benderfyniadau awdurdodau lleol yn unig, sy'n amrywio o un i'r llall oherwydd eu blaenoriaethau o ran gwariant. Rhaid i Lywodraeth Cymru ymyrryd yn fwy rhagweithiol i sicrhau bod y lefel isaf yn cael ei chynnal o ran ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ledled Cymru. Mae neilltuo rhannol yn atal awdurdodau lleol unigol rhag gostwng ymhellach lefel yr adnoddau ariannol sy'n cael eu gwario ar waith ieuenctid, gan eu galluogi i gynnal rhywfaint o annibyniaeth wrth flaenoriaethu eu gwariant yn unol â'u blaenoriaethau unigol. Efallai mai'r syniad penodol hwn yw'r ateb mwyaf realistig i'r mater.

### Beth yw gwaith ieuenctid?

Nododd Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid (2012) mai diben allweddol gwaith ieuenctid yw:

'enable young people to develop holistically, working with them to facilitate their personal, social and educational development, to enable them to develop their voice, influence and place in society and to reach their full potential.'

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru yn hawl gyffredinol, sy'n agored i bob person ifanc o fewn yr ystod oedran penodedig 11 i 25. Cyflawnir gwaith ieuenctid drwy'r sector gwirfoddol ac awdurdodau lleol a thrwy amrywiaeth o leoliadau a dulliau gwaith ieuenctid.

Yn ôl [Llywodraeth Cymru](#), mae gwaith ieuenctid addysgiadol anffurfiol da yn rhoi ymyriadau gyda diben i bob person ifanc sy'n cynhyrchu amgylcheddau dysgu a datblygu ar gyfer pobl ifanc. Gall chwarae rhan bwysig wrth ddarparu a helpu pobl ifanc i gyflawni yn eu haddysg ffurfiol. Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu sy'n addysgiadol, yn fynegiannol, yn gyfranogol, yn gynhwysol ac yn grymuso.

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ym mis Gorffennaf 2016, cytunodd y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** i gynnal ymchwiliad "ciplun", gyda'r nod o adolygu effeithiolrwydd strategaeth a pholisïau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwaith ieuenctid.

Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb penodol yn archwilio'r canlynol:

- Mynediad pobl ifanc at wasanaethau gwaith ieuenctid;
- Effeithiolrwydd strategaeth a pholisi Llywodraeth Cymru o ran gwaith ieuenctid;
- Cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid (awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Ewrop, y trydydd sector); ac
- Unrhyw faterion eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r ymchwiliad.

Mae [Blog y Gwasanaeth Ymchwil o fis Chwefror 2017](#) yn rhoi trosolwg o ddatblygiadau cyn y [Ddadl yn y Senedd](#) ar [Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i waith ieuenctid](#).

Mewn tystiolaeth lafar, clywodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am sut y mae pwysau ariannol wedi cael effaith ddifrifol ar waith ieuenctid dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru, mae cyfanswm y gwariant a gyllidebwyd ar gyfer gwasanaethau ieuenctid gan awdurdodau lleol, gan gynnwys cyllid drwy'r Grant Cynnal Refeniw, wedi gostwng bron 25 y cant dros y pedair blynedd diwethaf.

Wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo, nododd y Pwyllgor wrthwynebiad cryf y Gweinidog i neilltuo'r arian ar gyfer gwaith ieuenctid o fewn y grant cynnal refeniw. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn pryderu o hyd bod diffyg atebolrwydd ar gyfer y defnydd o arian a ddyrennir mewn enw i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Wrth ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ac ymateb y Gweinidog, mae Argymhelliad 8 o [adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn nodi fel a ganlyn](#):

Dylai'r Gweinidog ddatblygu fframwaith atebolrwydd ar gyfer defnydd awdurdodau lleol o arian ar gyfer gwaith ieuenctid drwy'r grant cynnal refeniw. Dylai'r fframwaith gynnwys sancsiynau os na chyflawnir y canlyniadau.

Roedd yr argymhelliad hwn yn dilyn ymlaen o dystiolaeth a arweiniodd y Pwyllgor i fynegi pryderon ynglŷn â phwysau cynyddol ar y sector statudol a gwirfoddol sy'n gysylltiedig â chyllid byrdymor o nifer o ffrydiau ariannu.

## Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Ymatebodd [Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd yn gadarnhaol i argymhellion y Pwyllgor](#) yn ystod mis Chwefror 2017, gan dderbyn y mwyafrif ohonynt ac yn cydnabod eu bod yn cyfateb â'i ffordd ef o feddwl. Mewn ymateb i argymhelliad 8, a dderbyniwyd mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, dywed y Gweinidog ar y pryd:

Mae'r grant cynnal refeniw yn ffrwd gyllido sydd heb ei neilltuo, ac felly mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu sut caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau lleol. Nid yw'n bosibl nodi faint o'r grant sy'n cael ei wario ar waith ieuenctid na rhagnodi'r swm hwn – mae'r Aseidiadau o Wariant Safonol yn symiau tybiannol a ddefnyddir at ddibenion cyfrifo yn unig ac nid ydynt yn dargedau ar gyfer gwariant. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth uniongyrchol i nifer o gynlluniau grant i gefnogi canlyniadau gwaith ieuenctid. Rydym wedi dechrau'r broses o adolygu'r ffrydiau cyllido hyn ar gyfer gwaith ieuenctid er mwyn nodi'r effaith y maent yn ei chael a gwella'r modd y cefnogir gwaith ieuenctid yn y dyfodol. Rwyf eisiau sicrhau gwell tryloywder a gwerth am arian.

Fel rhan o ohebiaeth barhaus rhwng y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Gweinidog ar y pryd, [ysgrifennodd Lynne Neagle, Cadeirydd y Pwyllgor, at Alun Davies ym mis Mai 2017](#) yn gofyn am ddiweddariad ar gynnydd Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu argymhellion yr ymchwiliad. O ran cyllid, dywed y llythyr:

Roedd y Pwyllgor yn wir pryderu y byddai gwasanaethau ieuenctid yn agored i ansicrwydd ariannol os nad yw awdurdodau lleol yn cael arweiniad clir ac yn atebol o ran sut y dylid gwario'r Grant Cynnal Refeniw i gefnogi gwasanaethau ieuenctid. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr adolygiad o ffrydiau ariannu gwaith ieuenctid a amlinellwyd gennych yn eich ymateb i'r Pwyllgor?

Roedd [ymateb Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ym mis Mehefin 2017](#) yn ailadrodd sut y mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid craidd ar gyfer gwasanaethau ieuenctid statudol drwy'r Grant Cynnal Refeniw, ond fe ddiweddarodd y Gweinidog y canlynol:

We are currently in the process of externally reviewing our additional youth work grants, including the National Voluntary Youth Organisation (NVYO) grant, all evaluations are due to be completed this summer. It will be at this point I will consider our options and then announce my decision, which will include any changes to the NVYO grant. I am fully aware of timescales for current NVYO recipients, including the need to know of any future funding decisions by 31 December.

At hynny, yn ei ymateb i'r Ddeiseb hon, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod hwn yn fater a godwyd yn Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ac yn amlinellu ei

hymdrechion i helpu i lunio'r cyfeiriad statudol a'r canllawiau ar waith ieuencid i adlewyrchu tirwedd ddeddfwriaethol, polisi ac ariannol heddiw, a phennu disgwyliadau realistig ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni.

Daw Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, i'r casgliad yn ei llythyr at y Pwyllgor Deisebau nad yw'n bwriadu gwneud newidiadau i'r trefniadau ariannu presennol tra bod yr adolygiadau hyn yn mynd rhagddynt.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-787  
Ein cyf/Our ref EM/05003/17

David John Rowlands AM  
Chair - Petitions committee.  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

14 Tachwedd 2017

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Hydref ynghylch Gwaith Ieuenctid yn cael ei ddosrannu i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Fel sy'n cael ei gydnabod yn eich llythyr, mae rhywfaint o'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yn mynd yn uniongyrchol i'r awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Diben hyn yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu defnyddio'r cyllid yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd ganddynt hwy yn lleol. Gwyddom fod awdurdodau lleol yn gwario ar hyn o bryd ganrannau gwahanol o'u cyllid o dan y Grant Cynnal Refeniw ar waith ieuenctid. Gwyddom hefyd fod Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch yr Ymchwiliad i Waith Ieuenctid "Pa fath o wasanaeth ieuenctid y mae Cymru ei eisiau?" yn trafod y mater hwn ac yn gofyn am roi mecanweithiau yn eu lle i sicrhau bod awdurdodau lleol yn atebol am ddefnyddio cyllid ar gyfer gwaith ieuenctid.

Fel y nodais yn fy ateb i argymhellion y Pwyllgor, rwyf wrthi ar hyn o bryd yn adolygu Ymestyn Hawliau. Mae'r gwaith o gysylltu â'r sector er mwyn ymgymryd â'r dasg hon ar y gweill eisoes. Rwyf wedi gofyn i Margaret Jervis edrych ar Ymestyn Hawliau er mwyn helpu i lywio'r cyfeiriad strategol a'r canllawiau sydd eu hangen i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth, y polisiau a'r sefyllfa ariannol bresennol ac i bennu disgwyliadau realistig ar gyfer yr hyn y gellir ei gyflawni. I'r diben hyn felly bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn y flwyddyn newydd ar y ffordd ymlaen.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal â hynny, rwyf eisoes wedi nodi'r bwriad i sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cymorth Gwaith Ieuenctid. Byddai'r Bwrdd yn cynghori ar ddyfodol y gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru yn ogystal â gweithredu'r rhaglen ddiwygiedig ar Ymestyn Hawliau a'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yn y dyfodol. Byddai hefyd yn edrych ar y ffyrdd priodol o ddefnyddio'r cyllid i gefnogi'r tair strategaeth allweddol hyn. Er hynny mae'n bwysig ein bod yn caniatáu digon o amser i Margaret gwblhau ei hadolygiad ac i'r sector fyfyrion ynghylch ei ganfyddiadau er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf bosib wrth roi'r cyfan ar waith er lles y bobl ifanc hynny rydym yn ceisio eu cefnogi. Nid yw'n fwriad gen i felly newid y trefniadau cyllido presennol ar hyn o bryd.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AC/AM**

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

**P-05-787 Save the Future Generation of Wales – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 24.11.17**

Please let me introduce myself briefly. My name is Ken Ebihara, the principle petitioner for the petition 'Save the Future Generation of Wales'. I genuinely appreciate that a precious opportunity is now offered and the petition is being considered by the Petitions Committee.

There are two points I would like to mention in this regard. Firstly, the vast majority of the people who have signed the petition lived in Wales when they signed and have both British citizenship and rights to vote in the United Kingdom, including for the National Assembly for Wales. Although I am an international student myself, who does not have the right to vote in the UK, the content of the petition is valid and citizens in Wales are truly concerned about it.

Secondly, as indicated, the letter to the committee written by Eluned Morgan AC/AM, the Minister for Welsh Language and Lifelong Learning, the issue had already been identified in one of the reports released by the Children, Young people and Education Committee in 2016, last year. This fact underlines that the members of this committee as well as relevant professionals acknowledge the existence of the issue addressed by my petition.

I fully understand that the Petitions Committee is formed of members from different political parties and might have different views and opinions towards the issue individually. Even so, for the reasons aforementioned, I would like the committee members to conduct a serious and thorough consideration of my petition and take appropriate process regarding the issue for the benefits of those who have supported the petition and for the future generation of Wales.

## Eitem 2.3

### P-05-788 Cael gwared ar agwedd orfodol Bagloriaeth Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Katharine Drinkwater, ar ôl casglu 60 o lofnodion ar-lein.

#### Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gael gwared ar agwedd orfodol Bagloriaeth Cymru ac adolygu strwythur y cwrs i sicrhau ei fod yn addas at y diben. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys tasg sy'n annog gamblo dan oed a diofalwch ariannol.

Mae ein plant yn haeddu'r hawl i ragori ar y llwyfan byd-eang. Mae tua 70% o'u hastudiaethau eisoes yn bynciau gorfodol ac mae Bagloriaeth Cymru yn cymryd cyfleoedd oddi wrthynt oherwydd na allant astudio'r holl bynciau y maent yn dymuno mynd ar eu trywydd. Efallai bod y 'cymhwyster' yn ffordd o dicio blwch ond nid yw'n helpu myfyrwyr Cymru i wireddu eu potensial (gweler y detholiad dilynol o adroddiad gan Lywodraeth Cymru). Bydd hyn yn cael effaith andwyol ar weddill eu bywydau ac ar eu rhagolygon gyrfa at y dyfodol. Rhowch yr un cyfleoedd i blant sy'n astudio yn ysgolion Cymru â'r rheini o wledydd eraill y Deyrnas Unedig a gwnewch addysg Cymru yn rhywbeth i fod yn falch ohono eto.

#### Gwybodaeth ychwanegol

Daw'r canlynol o adroddiad Llywodraeth Cymru ei hun i gymhwyster Bagloriaeth Cymru (Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, Ionawr 2015), gan nodi – Roedd canfyddiadau adroddiad WISERD yn ddwy ran yn bennaf. Daeth i'r casgliad fod CBC yn arbennig o werthfawr o ran paratoi pobl ifanc ar gyfer addysg uwch, o bosibl oherwydd y pwysau sydd ganddo yn nhariff UCAS. Ar yr un pryd, roedd yr adroddiad yn cefnogi canfyddiad blaenorol mewn adroddiad yn 2011 yn benodol ar Brifysgol Caerdydd nad oedd elfen Graidd CBC gyfwerth â gradd A Safon Uwch. At hynny, daeth i'r casgliad fod myfyrwyr gyda CBC yn fwy tebygol o dynnu'n ôl o'r brifysgol ac yn llai tebygol o sicrhau 'gradd dda', a ddiffinnir fel gradd Dosbarth Cyntaf neu radd Ail Ddosbarth Uwch.

Mae'r adroddiad yn dadlau y gall y ddau ganfyddiad fod yn gysylltiedig. Daw i'r casgliad yr ymddengys fod CBC yn gwella'r tebygolrwydd o fynd i'r brifysgol, gyda phopeth arall yr un peth; ond ymddengys y daw'r fantais hon ar draul canlyniadau llwyddiannus yn y brifysgol.



## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Islwyn
- Dwyrain De Cymru

## Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Y Pwyllgor Deisebau | 5 Rhagfyr 2017  
Petitions Committee | 5 December 2017

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil: Cael gwared ar agwedd orfodol Bagloriaeth Cymru

Rhif y ddeiseb: P-05-788

Teitl y ddeiseb: Cael gwared ar agwedd orfodol Bagloriaeth Cymru

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gael gwared ar agwedd orfodol Bagloriaeth Cymru ac adolygu strwythur y cwrs i sicrhau ei fod yn addas at y diben. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys tasg sy'n annog gamblo dan oed a diofalwch ariannol.

Mae ein plant yn haeddu'r hawl i ragori ar y llwyfan byd-eang. Mae tua 70% o'u hastudiaethau eisoes yn bynciau gorfodol ac mae Bagloriaeth Cymru yn cymryd cyfleoedd oddi wrthynt oherwydd na allant astudio'r holl bynciau y maent yn dymuno mynd ar eu trywydd. Efallai bod y 'cymhwyster' yn ffordd o dicio blwch ond nid yw'n helpu myfyrwyr Cymru i wireddu eu potensial (gweler y detholiad dilynol o adroddiad gan Lywodraeth Cymru). Bydd hyn yn cael effaith andwyol ar weddill eu bywydau ac ar eu rhagolygon gyrfa at y dyfodol. Rhowch yr un cyfleoedd i blant sy'n astudio yn ysgolion Cymru â'r rheini o wledydd eraill y Deyrnas Unedig a gwnewch addysg Cymru yn rhywbeth i fod yn falch ohono eto.

Daw'r canlynol o adroddiad Llywodraethu Cymru ar CBC (Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, Ionawr 2015) ac mae'n nodi – roedd canfyddiadau adroddiad WISERD yn ddeublyg yn bennaf. Daeth i'r casgliad fod CBC yn arbennig o werthfawr o ran paratoi pobl ifanc ar gyfer addysg uwch, o bosibl oherwydd y pwysau sydd ganddo yn nhariff UCAS. Ar yr un pryd, roedd yr adroddiad yn cefnogi canfyddiad blaenorol mewn adroddiad yn 2011 yn benodol ar Brifysgol Caerdydd nad oedd elfen Graidd CBC gyfwerth â gradd A Safon Uwch. At hynny, daeth i'r casgliad fod myfyrwyr gyda CBC yn fwy tebygol o dynnu'n ôl o'r brifysgol ac yn llai tebygol o sicrhau 'gradd dda', a ddiffinnir fel gradd Dosbarth Cyntaf neu radd Ail Ddosbarth Uwch.

Mae'r adroddiad yn dadlau y gall y ddau ganfyddiad fod yn gysylltiedig. Daw i'r casgliad yr ymddengys fod CBC yn gwella'r tebygolrwydd o fynd i'r brifysgol, gyda phopeth arall yr un peth; ond ymddengys y daw'r

## 1. Ymateb Ysgrifennydd y Cabinet

Yn ei llythyr i'r Pwyllgor, nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg y canlynol:

- Roedd y gwaith ymchwil y cyfeiriodd y Deisebydd ato ([Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru \(WISERD\)](#)) (2013) yn seiliedig ar Gymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) flaenorol. Mae CBC ddiwygiedig wedi bod ar waith ers mis Medi 2015;
- **Nid yw CBC yn orfodol;**
- Mae Cymwysterau Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o CBC (i'w gyhoeddi yn nhymor yr hydref).

## 2. Trosolwg o Fagloriaeth Cymru

Comisiynodd Llywodraeth Cymru yr [Adolygiad Annibynnol o Gymwysterau](#) (2012) a oedd yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu model Bagloriaeth Cymru diwygiedig a mwy trylwyr. Cafodd y CBC ei hail-ddylunio a chafodd y manylebau newydd eu dysgu o **fis Medi 2015**. Mae'r CBC ddiwygiedig yn seiliedig ar Dystysgrif Her Sgiliau, sydd wedi'i graddio, a Chymwysterau Cefnogi.

Fe'i dyfernir ar dair lefel:

- Bagloriaeth Sylfaen Cymru (lefel 1) i'w defnyddio yng Nghyfnod Allweddol 4 neu ôl-16;
- Bagloriaeth Cenedlaethol Cymru (lefel 1) i'w defnyddio yng Nghyfnod Allweddol 4 neu ôl-16;
- Bagloriaeth Uwch Cymru (lefel 3) i'w defnyddio ôl-16 yn unig.

Ochr yn ochr â'r Dystysgrif Her Sgiliau, mae dysgwyr yn cyflawni detholiad o gymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol sy'n briodol i'w hanghenion er mwyn ennill CBC.

## 3. Natur orfodol CBC

Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi **nad yw CBC yn orfodol i ddisgyblion**. Yng nghyfarfod y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Hydref 2017](#), dywedodd Darren Millar AC fod rhai ysgolion yn mynegi pryderon eu bod bron yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i sicrhau bod Bagloriaeth Cymru yn rhywbeth y mae'n rhaid ei gyflawni ôl 16. Mewn ymateb, dywedodd Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

The decision to allow some students not to participate has to be a decision for the headteachers in those classrooms, but I am clear that there are very real benefits to Welsh students studying the Welsh baccalaureate. We encourage schools and colleges to be able to allow their students to do it, but for each individual student, that has to be a decision for the headteacher within that school; I can't micromanage that process. I'm sure that if a headteacher genuinely thought that somebody's

chances of obtaining a place at Oxford or Cambridge or a Russell Group university were severely being disadvantaged because of participating in the Welsh bac, those professional people would make the right decisions. Because, once again, it's a badge of honour for a school to get pupils into Oxford and Cambridge or Russell Group universities; that's one of the ways in which they demonstrate their success as an institution. So, I think it would be massively inconceivable that a school would go out of its way to force a pupil to do a qualification if they genuinely believed that that was jeopardising their chances of that student going on to fulfil their potential.

Eglurodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru yn annog pobl ifanc i fanteisio ar CBC ôl-16. Dywedodd:

The documentation is equally clear with the phraseology, 'where appropriate'. So, there isn't the expectation that every young person in full-time learning in Wales at post 16 will undertake the Welsh baccalaureate. It has many advantages as a qualification—some of them around the employability skills that were referred to earlier in committee—and it does produce, for those who take it, perhaps a more rounded individual than somebody just undertaking an academic period of study, but it is not compulsory and it is down to the institution and the learner to decide whether or not they were going to undertake that qualification.

#### 4. Prifysgolion yn derbyn CBC

Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Hydref 2017, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mewn perthynas â phrifysgolion yn derbyn CBC:

We are actively working with universities across the United Kingdom for recognition of the Welsh bac, and you'll be aware that the reformed Welsh bac, which now has a grading system similar to that of A-levels, attracts UCAS points [...] there are many, many universities that will use the UCAS point scores from a Welsh bac as part of the offer. For other universities, if they don't do that, they use the process of a Welsh bac as a way of differentiating Welsh students from other students, because our students undertaking this course have got a personal statement and an interview perspective that I believe sets them apart, because they're able to demonstrate that, 'Yes, I can cope with an academic load', which is what our Russell Group universities are looking for—'I can cope with an academic load, but I'm not just about the academic; I've got a whole range and set of skills that I can bring to this university on top of those grades.' So, I think we need to look at it in the round, at what it offers students.

Yn ddiweddarach [ysgrifennodd at y Pwyllgor ar 31 Hydref 2017](#) yn nodi:

In May, I wrote to all university Vice Chancellors to seek assurance that their institutions would accept the reformed Welsh Baccalaureate – Advanced Skills Challenge Certificate (WBQ) as part of their future entry requirements or as part of an alternative offer. My officials are working with universities, including the Russell Group universities, to make sure that Welsh learners taking the WBQ are not disadvantaged when it comes to entry onto HE courses.

Universities, including Oxford and Cambridge, are clear that they value the WBQ and are taking an increasingly flexible approach to recognising it in their offers. The majority of HE institutions broadly recognise the WBQ as an appropriate qualification, although some universities and courses do not count it towards their entry requirements.

## 5. Adolygiad o CBC

Yn ei [thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) ar 18 Hydref 2017, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

Mae Adolygiad thematig gan Estyn ar y gweill i adolygu TGAU Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd a Bagloriaeth Cymru. Y meysydd allweddol a gwmpesir fydd llesiant dysgwyr, y profiad dysgu (gan gynnwys edrych ar newidiadau i drefniadaeth y cwricwlwm ar gyfer gweithredu'r cymwysterau TGAU newydd) ac arweinyddiaeth a rheolaeth (gan gynnwys prosesau ar gyfer rheoli newid ac olrhain a monitro cynnydd dysgwyr).

Mae [llythyr cylch gwaith Estyn ar gyfer 2017/18](#) yn nodi y bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar gynllunio'r cwricwlwm a gweithredu'r TGAU newydd mewn Cymraeg a Saesneg ac mewn mathemateg a rhifedd, yn ogystal â Bagloriaeth newydd Cymru. Bydd yn cynnwys edrych ar ymagweddau tuag at geisiadau arholiadau.

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod Cymwysterau Cymru wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r Dystysgrif Her Sgiliau a'i lle o fewn Bagloriaeth Cymru. Bydd yr adolygiad yn gwerthuso model dylunio ac asesu y Dystysgrif Her Sgiliau ar bob lefel. Mae Estyn yn cysylltu â Cymwysterau Cymru wrth gyhoeddi ei adroddiadau er mwyn helpu i lywio barn Estyn wrth gynnal ei adolygiad.

Bydd Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi ei adolygiad yn nhymor yr hydref.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Kirsty Williams AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg  
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref KW/01725/17

David John Rowlands AC  
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd CF99 1NA

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

25 Hydref 2017

Annwyl David

Diolch am y llythyr dyddiedig 17 Hydref gan Katherine Drinkwater am y ddeiseb sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gael gwared ag elfen orfodol Bagloriaeth Cymru ac adolygu strwythur y cymhwyster.

Fel cymwysterau eraill, nid yw Bagloriaeth Cymru yn orfodol yng Nghyfnod Allweddol 4 nac ar gyfer dysgwyr ôl-16. Er hynny, rwy'n annog dysgwyr i astudio tuag at y cymhwyster gan ei fod yn rhoi hwb ychwanegol iddynt, gan ehangu eu dysgu a sicrhau eu bod yn datblygu'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt ym myd gwaith ac yn y brifysgol.

Yn ei llythyr mae Ms Drinkwater yn cyfeirio at ymchwil a wnaed i Fagloriaeth Cymru, ond nid y fersiwn o'r cymhwyster a ystyriwyd gan yr ymchwilwyr yw'r un a astudir naill ai yng Nghyfnod Allweddol 4 na gan ddysgwyr ôl-16 ar hyn o bryd. Cyflwynwyd Bagloriaeth ddiwygiedig ym mis Medi 2015 yn unol ag argymhellion a wnaed gan yr Adolygiad Annibynnol o Gymwysterau ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru.

Mae Cymwysterau Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o Fagloriaeth Cymru a bydd y canfyddiadau'n cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Hoffwn eich sicrhau nad yw'r manylebau presennol ar gyfer Bagloriaeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4 nac ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn cymeradwyo ymddygiad na chynnwys sy'n niweidiol i les dysgwyr, er enghraifft gamblo neu annog dysgwyr i fod yn anghyfrifol ag arian.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400


[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 50  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff yr holl friffiau her ar gyfer Bagloriaeth Cymru eu cymeradwyo gan CBAC, a gall y dysgwyr ddewis pa un o'r heriau maent am eu gwneud.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

**Kirsty Williams AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Cabinet Secretary for Education

**P-05-788 Remove the compulsory aspect of Welsh Baccalaureate –  
Correspondence from the Petitioner to the Committee, 22.11.17**

Dear Sirs,

I am aware a press release was sent stating Welsh Bac is not compulsory however this statement was very disingenuous as the Wels Bac is one of only two standards that schools will be assessed on from 2018, so schools have to insist the entire cohort study this subject or suffer the consequences of having lower grades.

Either take Welsh Bac out of the assessment criteria or be honest and admit that schools and therefore students have been left no option but to waste time on a subject many do not want to take. Give our children a world class education and not the nationalist limiting subject currently being forcibly pressed onto our children and the staff that teach them.

I would be very happy to discuss this in person.

Kind regards

Katharine Drinkwater



### **P-05-789 Adolygu cymorth i geiswyr lloches sy'n ymgymryd ag addysg bellach**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Gulnar Sohail, ar ôl casglu 78 o lofnodion ar-lein.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i adolygu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), y Gronfa Ariannol Wrth Gefn (CAwG) a Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (GDLIC) i ganiatáu i fwy o geiswyr lloches allu cymryd rhan mewn addysg bellach.

#### **Gwybodaeth ychwanegol**

Yn y cyfnod anodd hwn pan mae chwyddiant yn cynyddu ac mae eitemau bob dydd yn mynd yn fwyfwy drud i ddinasyddion y DU hefyd, mae bron yn amhosibl i geiswyr lloches symud ymlaen ymhellach yn eu haddysg uwch/mynediad. Rydym ni (Ceiswyr Lloches) yn cael ychydig dros £5 y dydd yn unig gan y Swyddfa Gartref, ac o'r swm hwn mae'n rhaid prynu bwyd, dillad, costau cludiant dyddiol ac mae'r rhestr yn parhau. Hyd yn oed pe byddwn yn ceisio rhywsut (trwy dorri i lawr ar fwyd neu ryw beth arall pwysig) mae cost y cludiant ar gyfer y cwrs cyfan gan gynnwys unrhyw daliadau eraill fel cofrestru a gofal plant yn ormod i allu ymdopi â hwy. Fy mhwynt yw na ddylid gwahaniaethu rhwng ceisiwr lloches ac unrhyw berson arall sy'n byw yng Nghymru os yw'r ddau'n ceisio mynd i'r coleg ar gyfer cyrsiau addysg uwch/mynediad. Os yw person o Gymru yn cael CAwG a GDLIC yna dylai ceisiwr lloches hefyd dderbyn y ddau, neu unrhyw gymorth cysylltiedig arall a fydd yn ei alluogi i symud ymlaen yn ei fywyd. Oherwydd costau a grybwyllwyd eisoes, rwyf wedi gweld cynifer o geiswyr lloches yn gwrthod eu cyfle i ymgymryd ag addysg uwch. Mae hefyd yn golygu na fyddant yn gwneud unrhyw beth cynhyrchiol gan nad yw gweithio'n cael ei ganiatáu, a bydd eistedd gartref yn eu gwneud yn fwy rhwystredig. Hoffwn hefyd sôn am enghraifft ddiweddar pan y gwnaeth person anghenus (y gwrthodwyd ei gais am loches ac y cafodd ei gymorth ariannol a'i dŷ ei dynnu'n ôl gan y Swyddfa Gartref) gyflawni hunanladdiad. Roedd yn byw yn y sefyllfa hon ers peth amser ac nid oedd yn gallu gwneud defnydd o'i fywyd. Rwy'n credu pe byddai wedi cael cyfle efallai na fyddai wedi mynd mor bell â hynny. Byddai galluogi mwy o geiswyr lloches i gael addysg nid yn unig yn rhoi rhywfaint o bwrpas

iddynt mewn bywyd ond byddai hefyd yn cyfoethogi'r gymuned lle maent yn byw. Wedi'r cyfan, o dderbyn ein trwydded breswyl, byddem yn annibynnol ac yn rhydd i weithio a bydd yr addysg hon yn ein helpu mewn sawl ffordd i lunio ein teuluoedd a'n cymunedau mewn ffyrdd llawer gwell.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Dwyrain Abertawe
- Gorllewin De Cymru



Eich cyf P-05-789  
Ein cyf EM/05006/17

David John Rowlands AC  
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

government.committee.business@llyw.cymru

14 Tachwedd 2017

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref. Ynddo, roeddech yn sôn am ddeiseb a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Deisebau gan Gulnar Sohail a oedd yn gofyn am ailedrych ar y gefnogaeth i geiswyr lloches gael mynediad at addysg bellach. Yn benodol, roedd y deisebydd yn enwi'r cynlluniau a ganlyn:- Lwfans Cynhaliath Addysg (LCA), Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â grŵp llywio Cenedl Noddfa Clymblaid Ffoaduriaid Cymru i ddatblygu Cynllun Cyflawni Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches newydd, gan gyfeirio at adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, "Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun". Fel rhan o'r gwaith hwnnw, bydd swyddogion yn edrych ar beth y gellir ei wneud eto i roi cefnogaeth i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i ddod yn rhan o fywyd Cymreig a Chymraeg. Mae mynediad at addysg yn un o'r prif ystyriaethau.

Mae gan bob prifysgol a sefydliad addysg bellach ganolfannau cymorth i fyfyrwyr sy'n darparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys cefnogaeth ariannol a chwmsela. Mae hyn ar gael i bawb. Byddai gwybodaeth fel hyn ar gael cyn ymsefydlu ac ar wefannau'r sefydliadau eu hunain. Mae gan ganolfannau cymorth i fyfyrwyr arbenigedd, profiad a dealltwriaeth o'r rhwystrau i addysg sy'n wynebu myfyrwyr. Mae ganddynt gysylltiadau ag amrywiaeth o sefydliadau allanol i gefnogi grwpiau blaenoriaeth, fel sefydliadau sy'n gysylltiedig â cheiswyr lloches a ffoaduriaid.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn gweithredu o fewn canllawiau Fframwaith Cynllunio a Chyllido ôl-16 a ddarperir gan Lywodraeth Cymru . Mae modd i geiswyr lloches gael mynediad at raglenni dysgu a ariennir ac a ddarperir gan Sefydliadau Addysg Bellach. Dylent gysylltu â chanolfan cymorth i fyfyrwyr y Sefydliad Addysg Bellach a gofyn am gyrsiau/rhaglenni dysgu cymwys.

Mae'r meini prawf presennol i gael cefnogaeth ar gyfer addysg bellach ac uwch gan Gyllid Myfyrwyr Cymru a chynllun y Gronfa Ariannol wrth Gefn sy'n cael ei gweinyddu gan Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru, yn nodi mai dim ond categorïau penodol o fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer cymorth myfyrwyr a statws ffioedd cartref. Yn gyffredinol, dyma'r amodau:

- Personau sydd â statws preswlydd parhaol yn y DU ac sydd wedi byw yma ers tair blynedd;
- Gweithwyr o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu weithwyr Swisaidd a'u cymar/partneriaid sifil a'u plant yn y DU sydd wedi preswyllo yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir am dair blynedd;
- Gwladolion yr UE a'u cymar/partneriaid sifil a phlant sydd wedi preswyllo yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir am dair blynedd;
- Ffoaduriaid (sy'n cael eu cydnabod gan lywodraeth y DU) a'u cymar/partneriaid sifil a'u plant; neu
- Personau sydd wedi ymgeisio am loches ac sydd wedi cael statws Diogelwch Dyngarol neu Ganiatâd yn ôl Disgresiwn, a'u teuluoedd; neu sydd wedi cael Caniatâd yn ôl Disgresiwn pan na fo cais am loches wedi ei wneud

Nid oes angen i berson sydd â statws ffoadur neu sydd wedi cael statws Diogelwch Dyngarol neu Ganiatâd yn ôl Disgresiwn fodloni'r maen prawf ar gyfer byw fel arfer am dair blynedd yn y DU er mwyn bod yn gymwys i gael cefnogaeth gan y cynllun Lwfans Cynhaliath Addysg neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) neu'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn. Mae hyn, fodd bynnag, yn amodol ar fodloni meini prawf eraill. Wedi dweud hyn, mae'n rhaid bod person yn preswyllo fel arfer yng Nghymru er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y cynllun Lwfans Cynhaliath Addysg neu Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach); neu mae'n rhaid bod y person yn astudio mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru i fod yn gymwys am y Gronfa Ariannol wrth Gefn.

Nid yw ceiswyr lloches, y mae eu statws eto i gael ei benderfynu, ac nad ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau uchod, yn gymwys ar hyn o bryd ar gyfer cymorth i fyfyrwyr addysg uwch neu bellach. Fodd bynnag, mae gan Sefydliadau Addysg Bellach a phrifysgolion yng Nghymru ddisgresiwn i godi ffioedd statws cartref a chaniateir iddynt hefyd ddarparu eu cynlluniau ysgoloriaeth/bwrsariaeth eu hunain. Caniateir iddynt hefyd ddarparu modd arall o roi cefnogaeth i geiswyr lloches gael mynediad at addysg. Mae meini prawf tebyg yn cael eu defnyddio ledled y DU.

Bydd swyddogion yn parhau i ymchwilio i weld a oes modd rhoi cefnogaeth ychwanegol i alluogi pobl i fanteisio ar wasanaethau addysg.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

**Eluned Morgan AC/AM**

Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

Minister for Welsh Language and Lifelong Learning



Eich cyf P-05-789  
Ein cyf EM/05006/17

David John Rowlands AC  
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

government.committee.business@llyw.cymru

14 Tachwedd 2017

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref. Ynddo, roeddech yn sôn am ddeiseb a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Deisebau gan Gulnar Sohail a oedd yn gofyn am ailedrych ar y gefnogaeth i geiswyr lloches gael mynediad at addysg bellach. Yn benodol, roedd y deisebydd yn enwi'r cynlluniau a ganlyn:- Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA), Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) a'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â grŵp llywio Cenedl Noddfa Clymblaid Ffoaduriaid Cymru i ddatblygu Cynllun Cyflawni Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches newydd, gan gyfeirio at adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, "Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun". Fel rhan o'r gwaith hwnnw, bydd swyddogion yn edrych ar beth y gellir ei wneud eto i roi cefnogaeth i helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i ddod yn rhan o fywyd Cymreig a Chymraeg. Mae mynediad at addysg yn un o'r prif ystyriaethau.

